Cylch Gorchwyl

Fersiwn 7
24.06.2021
Paratowyd gan
Paul Donovan
ar ran VAAN

1. Cefndir

Yn sgil diddordeb/ymgysylltiad unigolion a sefydliadau allweddol ynghylch 'Astudiaeth o Ddichonoldeb a Digwyddiad Arddangos Gweithgareddau Arfordirol' Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC) Bro Morgannwg a gynhaliwyd gan Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru (WATO) yn ystod 2018 a 2019, mae'r amser wedi dod i edrych ar weithredu rhai o'r nodau a amlygwyd. Amlygodd yr adroddiad terfynol https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Working/Regeneration/Rural%20Regeneration/Leader-2014-2020/Coastal-Activities-Feasibility-Study-2019-Welsh.pdf, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019. nifer o nodau tymor byr, canolig a hir, gan gydnabod Bro Morgannwg fel "***Un o Gyrchfannau Antur Cyfrinachol Gorau Cymru***"*.Yn y tymor byr, un o'r nodau ynglŷn â datblygu busnes oedd:*

- Sefydlu Rhwydwaith Gweithgareddau Antur yn y Fro.

2. Gweledigaeth

Bydd y Rhwydwaith Gweithgareddau Antur yn chwarae rhan ganolog wrth gefnogi datblygiad ymagwedd gynaliadwy at ddefnyddio adnoddau naturiol Bro Morgannwg. Drwy ymgysylltu ar y cyd, bydd aelodau Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro yn nodi eu gwerthoedd cyffredin ac yn gweithio gyda'i gilydd i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer buddion amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd drwy weithgareddau antur. Gweledigaeth Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro yw:

'Arferion awyr agored cynaliadwy, pleserus, parchus a chyfrifol ar gyfer Bro Morgannwg iach'

3. Datganiad Cenhadaeth

Nod Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro yw datblygu ymagwedd cydlynol o fewn y sector gweithgareddau antur ehangach trwy fanteisio ar brofiad, sgiliau a gwybodaeth ei aelodau a'r bobl y maent yn eu cyrraedd i hwyluso ei Weledigaeth –

'Arferion awyr agored cynaliadwy, pleserus, parchus a chyfrifol ar gyfer Bro Morgannwg iach'.

4. Nodau ac Amcanion Craidd

O fewn cwmpas y Weledigaeth a'r Genhadaeth, nodwyd 5 nod/amcan craidd.

Nod Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro yw darparu:

Cylch Gorchwyl

Fersiwn 7
24.06.2021
Paratowyd gan
Paul Donovan
ar ran VAAN

1. ffordd o gyfathrebu lle y gall aelodau leisio'u pryderon a chael ateb i'w cwestiynau - rhywle i fynd iddo i gael gwybodaeth berthnasol ac amserol;
2. rôl ragweithiol wrth weithio gyda sefydliadau lleol perthnasol ym Mro Morgannwg a dylanwadu'n gadarnhaol arnynt;
3. dull o gefnogi aelodau, gan gynnig llwybr i gael cyngor ac ymgynghori;
4. 'hyb' ar gyfer hyfforddiant perthnasol a rhannu 'arfer gorau';
5. cymorth wrth hyrwyddo ac ymgymryd â phrosiectau gwella'r amgylchedd.

Nid yw Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro yn:

1. fforwm ar gyfer 'beirniadu' cwmnïau gwahanol neu bennu sut mae pobl yn rhedeg eu Sefydliadau;
2. sefydliad sy'n gwneud elw - caiff unrhyw arian a godir ei ailfuddsoddi er budd yr aelodau;
3. darparwr Marchnata - yn darparu mynediad i gyfleoedd Marchnata allanol yn unig.

5. Aelodau

Mae aelodaeth VAAN yn agored i unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n ymwneud naill ai â darparu gweithgareddau antur (masnachol neu wirfoddol) neu roi cyngor a chymorth i'r rhai sy'n darparu gweithgareddau antur. Bydd ceisiadau am aelodaeth drwy ffurflen gais ar-lein.

5.1 Categorïau Aelodaeth

Mae pedwar categori o aelodaeth:

1. **Darparwr (Achrededig)** - yn cyfeirio at y busnesau/sefydliadau gweithgareddau antur hynny sydd wedi'u hachredu gan gynllun achredu cydnabyddedig yn y DU (e.e. AALA, Adventuremark, Croeso Cymru) ac yn cynnig gweithgareddau antur (fel y'u diffinnir gan VAAN) er budd masnachol. Bydd pob darparwr achrededig yn gymwys i gael rhestr weladwy ar wefan Ymweld â'r Fro ac arddangos logo VAAN.
   DS: Cyflawnir yr holl restrau darparwyr gweithgareddau antur ar wefan Ymweld â'r Fro drwy lenwi ffurflen Hunanardystio Darparwyr Gweithgareddau Croeso Cymru yma yn gyntaf: https://www.visitwales.com/activity-providers-self-certification-form. I gwblhau'r broses hon, bydd angen i chi gynnal achrediad addas (AALA, Adventuremark ac ati) neu gael eich archwilio gan ymgynghorydd technegol a enwebwyd gan Croeso Cymru i gael ei hyrwyddo gan Croeso Cymru.

Cylch Gorchwyl

Fersiwn 7
24.06.2021
Paratowyd gan
Paul Donovan
ar ran VAAN

2. **Darparwr (Heb ei Achredu)** - yn cyfeirio at y busnesau/sefydliadau gweithgareddau antur hynny nad ydynt eto wedi'u hachredu gan gynllun achredu cydnabyddedig yn y DU (e.e. AALA, Adventuremark, Croeso Cymru) ac yn cynnig gweithgareddau antur (fel y'u diffinnir gan VAAN) er budd masnachol.
   DS: Nid yw'r holl ddarparwyr nad ydynt wedi'u hachredu yn gymwys i gael rhestr weladwy ar wefan Ymweld â'r Fro, nac yn defnyddio logo VAAN.
3. **Clwb** - yn cyfeirio at y sefydliadau hynny sy'n gysylltiedig â'u Corff Llywodraethu Cenedlaethol priodol ac yn darparu gweithgareddau antur (fel y'u diffinnir gan VAAN) yn wirfoddol e.e. clybiau canŵ, sgowtiaid ac ati.
4. **Arsylwr** - yn cyfeirio at y rhai sy'n cefnogi darparu gweithgareddau antur (fel y'u diffinnir gan VAAN) e.e. awdurdod lleol, sefydliad anllywodraethol ac ati.

5.2 Terfynu Aelodaeth

Os bydd unrhyw aelod o VAAN yn dymuno terfynu ei aelodaeth, dylai wneud hynny drwy gyflwyno cais yn ysgrifenedig (llythyr neu e-bost) i Ysgrifenyddiaeth VAAN (manylion isod) a fydd yn cadarnhau'r cais yn ysgrifenedig.

Os bydd aelod o VAAN yn torri'r Cylch Gorchwyl hwn, yna yn y lle cyntaf bydd Ysgrifenyddiaeth VAAN yn cysylltu â'r aelod i drafod y tor-amod. Os na fydd penderfyniad boddhaol, yna bydd y mater yn cael ei wneud i Banel Terfynu VAAN (i'w sefydlu gan Ysgrifenyddiaeth VAAN) i benderfyniad ar y camau i'w cymryd a allai arwain at Benderfyniad Arbennig i'r Aelod gael ei gynnig i aelodaeth VAAN. Bydd unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu darparu'n ysgrifenedig (llythyr neu e-bost) i'r aelod gan Ysgrifenyddiaeth VAAN.

6. Egwyddorion Gweithredol

6.1 Strwythur Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro - Aelodaeth

- Mae Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro yn rhwydwaith anfeirniadol, dielw o randdeiliaid allweddol sy'n gyfartal eu statws a gall unrhyw sefydliad ymaelodi ag ef os yw'n uniaethu â'i ddiffiniad o Antur, â'i Weledigaeth, â'i Ddatganiad Cenhadaeth ac â'i Nodau a'i Amcanion Craidd.

Cylch Gorchwyl

Fersiwn 7
24.06.2021
Paratowyd gan
Paul Donovan
ar ran VAAN

- Bydd aelodau Rhwydwaith Gweithgareddau Antur y Fro yn derbyn diweddariadau rheolaidd ynglŷn â thrafodaethau byw, materion a amlygwyd ayyb. drwy'r porth sefydledig.
- Gall aelodau ddewis:
    - Ymgysylltu mewn ffordd agored ag unrhyw un o'r trafodaethau byw.
    - Dechrau eu trafodaethau eu hunain a gwahodd aelodau i gyfrannu.
    - Cynnal gorchwyl gwylio ar bob trafodaeth.
    - Aros yn niwtral/yn ddidduedd i unrhyw/pob trafodaeth.

6.2 Swyddogaeth Rhwydwaith Gweithgareddau

- Bydd holl aelodau Rhwydwaith Antur y Fro yn cwrdd tua phob 3 mis
- Fel arfer bydd cyfarfodydd yn para dwy awr a gallant amrywio o ran lleoliad.
- Bydd yr aelodaeth yn cymryd cyfrifoldeb dros sefydlu cyfarfodydd, talu costau ystafelloedd cyfarfod a darparu ysgrifenyddion ayyb.
- Dylai eitemau'r agenda fod gyda'r ysgrifenyddion bythefnos cyn y cyfarfod nesaf.
- Caiff yr agenda, ynghyd ag unrhyw bapurau cyfarfodydd, eu postio ar y porth sefydledig wythnos cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd.
- Pan fydd angen mwy o sylw ar brosiectau/materion, byddai Grwpiau Gorchwyl a Gorffen priodol yn dod at ei gilydd i ystyried prosiectau/materion ayyb. ac arwain ar ei ddatblygiadau.
- Bydd yr holl gyfathrebiadau'n cael eu cynnal ar y Porth sefydledig.

6.3 Adolygu

- Caiff yr effeithiolrwydd, aelodaeth a'r Cylch Gorchwyl eu hadolygu o bryd i'w gilydd.